# PWYLLGOR IAITH, 10.10.13

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd Liz Saville Roberts (Cadeirydd).

**Y Cynghorwyr:** Craig ab Iago, Elwyn Edwards, Tom Ellis, Alan Jones Evans, Alwyn Gruffydd, Dyfrig Jones, Eric Merfyn Jones, Mair Rowlands, Gareth Thomas, Eirwyn Williams, Elfed Williams, Gruffydd Williams a Mandy Williams-Davies.

**Swyddogion:** Gareth Jones (Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio), Sion Huws (Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith), Nia Davies (Rheolwr Cynllunio – Polisi), Ruth Richards (Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith) ac Eirian Roberts (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu).

**Sylwedydd:** Y Cynghorydd Ioan Thomas (Aelod Cabinet – Y Gymraeg).

**Ymddiheuriad:** Y Cynghorydd Gweno Glyn.

## 1. IS-GADEIRYDD

**PENDERFYNWYD ethol y Cynghorydd Gweno Glyn yn gadeirydd y pwyllgor hwn am 2013/14.**

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

## 3. MATER BRYS – YMCHWILIAD CRAFFU CAFFAEL CYNALIADWY – MEWNBWN Y PWYLLGOR IAITH

Nid oedd yr eitem hon wedi'i chynnwys ar y rhaglen, ond cytunodd y Cadeirydd i'w thrafod fel mater brys o dan Adran 100B(4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan y bydd yr Ymchwiliad Craffu Caffael Cynaliadwy yn argymell i'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol a'r Aelod Cabinet ym mis Ionawr fod y Pwyllgor Iaith yn edrych ar y defnydd o'r Gymraeg o fewn y prif adrannau sy'n paratoi tendrau.

Yn rhinwedd ei swyddogaeth fel Cadeirydd y Grŵp, eglurodd y Cynghorydd Mair Rowlands fod y grŵp wedi bod yn edrych ar addasrwydd y polisïau a'r canllawiau caffael cynaliadwy a'u bod o'r farn nad oedd y sefyllfa bresennol yn adlewyrchu pwysigrwydd y canllawiau ieithyddol.

**PENDERFYNWYD gosod y mater hwn ar raglen cyfarfod Ionawr o'r Pwyllgor Iaith.**

## 4. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 27 Mehefin, 2013 fel rhai cywir.

## 5. RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn gofyn i'r pwyllgor gymeradwyo'r rhaglen waith, gan ychwanegu ati yn ôl yr angen.

Yn ystod y drafodaeth ar yr eitem, amlygwyd y prif bwyntiau a ganlyn:-

(i) Nodwyd nad oedd pethau'n gwella a bod rhywbeth mawr o'i le'n gorfforaethol gyda'r agwedd bresennol tuag at yr iaith Gymraeg. 'Roedd yr ystadegau diweddaraf wedi dangos yn glir bod gofal y Cyngor o dreftadaeth ieithyddol a diwylliannol y sir wedi dirywio a bod yna don o ddifaterwch tuag at yr iaith o fewn y Cyngor. Fel enghreifftiau o hyn, nodwyd bod ffurflen gais i gau sgwâr Tremadog ar gyfer Ffair Nadolig wedi ei derbyn yn uniaith Saesneg a bod y ffurflenni cofrestru etholwyr a anfonwyd allan yn ddiweddar wedi eu plygu gyda'r fersiwn Saesneg yn wynebu at i fyny. 'Roedd y neges mae hyn yn ei roi i'r cyhoedd yn ddamniol i'r Gymraeg a dylai'r Cyngor roi'r Gymraeg yn flaenaf bob amser.

(ii) Awgrymwyd gyrru neges i'r Cabinet yn eu hannog i benodi Pencampwr y Gymraeg o fewn y Cyngor.

(iii) Awgrymwyd y dylai'r polisi gosod tai yng Ngwynedd roi blaenoriaeth i siaradwyr Cymraeg gan fod dylanwad plant di-gymraeg yn chwarae ar ystadau yn llawer mwy andwyol i ddyfodol yr iaith nag ambell lythyr di-gymraeg yn cyrraedd drwy'r post. Cytunodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith i edrych ar y sefyllfa gyfreithiol ochr yn ochr â rheoli gosod tai a dod â gwybodaeth yn ôl i'r pwyllgor.

(iv) Nodwyd bod pobl o'r tu allan yn cael blaenoriaeth dros Gymry am dai a hefyd bod adeiladu tai'n ddiangen yn mynd i ladd y Gymraeg.

(v) Nodwyd bod y Cyngor yn parhau i ddefnyddio fersiynau Saesneg diystyr o enwau strydoedd, e.e. West End am Faes Abereistedd yng Nghricieth.

(vi) Croesawyd y bwriad i'r pwyllgor dderbyn cyflwyniadau gan yr adrannau.

(vii) Pwysleisiwyd y dylai grantiau a thrwyddedau a roddir i fusnesau / cwmnïau, ayb, fod yn destun amodau ynglŷn â defnyddio'r Gymraeg. Fel enghraifft o hyn, nodwyd bod pob arwydd am Farchnad Caernarfon yr holl ffordd o Fangor i Bwllheli yn Saesneg yn unig. 'Roedd yn rhaid gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a'r pethau bach sy'n bwysig. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai'r eitem '*3ydd parti sy'n defnyddio asedau'r Cyngor*' a raglennwyd ar gyfer cyfarfod Mehefin nesaf edrych ar y defnydd o amodau yn ehangach. Mewn ymateb i awgrym nad oedd pobl yn cael eu dwyn i gyfri' am beidio cydymffurfio ag amodau grant, eglurodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith na ellid gosod amodau ond yng nghyswllt yr hyn y rhoddir arian ar ei gyfer. Fodd bynnag, ceisid annog pob cwmni / sefydliad sy'n derbyn unrhyw fath o grant i weld gwerth dwyieithrwydd ac i weld gwerth yr iaith Gymraeg fel teclyn marchnata. Nododd hefyd y ceisid gwthio'r ffiniau cyn belled â phosib', ond na roddid arian yn uniongyrchol i unrhyw beth na fyddai'n cydymffurfio â gofynion ieithyddol y Cyngor.

**PENDERFYNWYD derbyn y rhaglen waith gyda'r ychwanegiadau.**

## 6. YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2012-2013

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn cyflwyno sylwadau'r Comisiynydd ar Adroddiad Monitro Iaith Blynyddol Cyngor Gwynedd 2012-13 ynghyd ag ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'r adroddiad.

Rhoddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) Mewn ymateb i gwestiwn, nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith nad oedd yna drefn ffurfiol o fonitro llwyddiant y sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff, ond na dderbyniwyd unrhyw gŵyn am wasanaeth y Tîm Cyfiawnder Ieuenctid ers i'w staff dderbyn yr hyfforddiant ym Mehefin 2012. Awgrymodd y Cadeirydd y gellid sefydlu trefn o ofyn, ymhen, dyweder, 6 mis, i staff sydd wedi derbyn yr hyfforddiant ddweud sut mae'r hyfforddiant hwnnw wedi dylanwadu ar eu hymddygiad / yr hyn maent yn ei wneud.

(ii) Nodwyd nad oedd y drefn o fonitro contractau Gofal Cymdeithasol yn gweithio gan fod yna ofalwyr di-gymraeg yn ymweld â phobl sydd ag anghenion ieithyddol gwahanol. Holwyd sut y gellid goresgyn hynny a gofynnwyd hefyd a oedd yna fwriad i ddarparu'r teclyn pennu sgiliau ieithyddol i fusnesau sy'n cynnig gwasanaethau i'r Cyngor. Atebodd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith fod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi adnabod hyn fel maes blaenoriaeth a'u bod, ar hyn o bryd, yn gweithredu ar argymhellion yr arolwg a gomisiynwyd gan y Ganolfan Cynllunio Iaith o ofynion ac ymarfer y Cyngor wrth ddarparu gwasanaethau cartrefi gofal a gofal cartref. Ychwanegodd ei bod braidd yn gynnar i fedru dweud faint o wahaniaeth y byddai hyn yn ei wneud, ond 'roedd yn rhywbeth i ail ymweld ag o. O ran y teclyn, nododd nad oedd mewn sefyllfa i roi sylw ar hynny gan mai ond yn ddiweddar iawn y cynhaliwyd y peilot. Fodd bynnag, 'roedd o'r farn bod gwerth iddo ac awgrymodd y byddai hyn yn rhywbeth i'w godi gyda'r Pennaeth Adnoddau Dynol yn y cyfarfod nesaf.

Awgrymwyd, os oedd y teclyn wedi ei ddatblygu ar gyfer peilot, a'i fod yn gweithio, yna dylid symud ymlaen ar fyrder i'w ddefnyddio o fewn y Cyngor gan ei bod yn hanfodol bod pobl yn derbyn gofal yn eu hiaith eu hunain. Atebodd y Cadeirydd fod y teclyn yn eiddo i CBAC ac mai hwy oedd yn ei beilota, ond bod yna le i'r Cyngor hwn godi'r angen iddo gael ei ehangu.

Awgrymwyd, os yw'r Cyngor wedi peilota'r teclyn i CBAC, y dylai ofyn am ei ddefnyddio wedyn.

**PENDERFYNWYD derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg ac ymateb y Cyngor i'r cais am wybodaeth.**

## 7. CYNLLUNIO A'R IAITH GYMRAEG

Croesawyd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio a'r Rheolwr Cynllunio – Polisi i'r cyfarfod.

Cyn rhoi trosolwg o gynnwys adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio, hysbysodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio'r aelodau fod y Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 20 newydd wedi ei gyhoeddi'r diwrnod cynt. Eglurodd fod y TAN 20 newydd yn rhoi mwy o gig ar yr asgwrn nag yr oedd y TAN 20 gwreiddiol. Nododd nad oedd y TAN 20 newydd yn mynd mor bell ag y byddai'r swyddogion wedi gobeithio, ond 'roedd paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd yn rhoi'r cyfle, os oes tystiolaeth gadarn, i herio ambell beth a cheisio gwthio'r ffiniau o safbwynt cynllunio. 'Roedd y pwyslais yn y TAN 20 newydd ar sicrhau bod yr ystyriaethau ieithyddol yn cael eu cyfarch yn y broses o ddarparu'r CDLl ar y Cyd yng nghyd-destun Gwynedd. O ran ceisiadau cynllunio unigol, 'roedd y TAN 20 newydd yn datgan, gan fod y Cyngor wedi rhoi ystyriaeth i'r iaith wrth baratoi'r cynllun, nad oedd angen rhoi ystyriaeth i hynny eto pan fo ceisiadau cynllunio yn cael eu cyflwyno. 'Roedd gan y swyddogion cynllunio bryderon ynglŷn â hynny a byddai'n rhaid edrych ar y sefyllfa yng nghyd-destun y CDLl ar y Cyd, a hefyd Canllaw Cynllunio Atodol a fyddai, yn y

y pen draw, yn gig ar asgwrn beth bynnag fydd y polisi hwnnw. Fodd bynnag, 'roedd yr amseriad yn ddelfrydol o safbwynt y broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd gan fod yna gyfle i gyfarch y materion hyn yn y cynllun.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio ymhellach iddo geisio barn Uned Gyfreithiol y Cyngor ynglŷn â sut y byddid yn ymdrin â cheisiadau cynllunio yng nghyd-destun y TAN 20 newydd, ac iddo gael barn ar lafar yn nodi, er y byddai'r TAN 20 newydd yn ystyriaeth gynllunio faterol, nad yw'r CDLl ar y Cyd wedi'i fabwysiadu eto ac mai Cynllun Datblygu Unedol Gwynedd yw'r cynllun sydd wedi'i fabwysiadu. Gan hynny, byddai'r dull o ymdrin â cheisiadau cynllunio yn aros yr un fath ac 'roedd yr wybodaeth yn Rhan 1 o adroddiad y Pennaeth Adran Rheoleiddio yn parhau'n berthnasol hyd oni fyddai'r CDLl ar y Cyd wedi'i fabwysiadu yn 2016 gobeithio. Yng nghyd-destun y TAN 20 newydd, Rhan 2 o'r adroddiad oedd y pwysicaf, oherwydd dyma'r cyfle i ddylanwadu ar bolisi Gwynedd am y 15 mlynedd nesaf hyd 2026.

Rhoddwyd cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau a chynnig sylwadau. Yn ystod y drafodaeth, amlygwyd y prif faterion a ganlyn:-

(i) Mewn ymateb i ymholiad, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod y datganiad yn y TAN 20 gwreiddiol na ddylid rhoi meddiannaeth tai am resymau ieithyddol yn dal yn berthnasol yn y TAN 20 newydd ac yn cael ei gynnwys ym mharagraff 3.7.4. Eglurodd fod yna faterion deddfwriaethol yng nghyd-destun y datganiad hwn ac na ellid gorfodi neb na dylanwadu'n uniongyrchol ar sail iaith, hil ayb. Ychwanegodd fod y TAN 20 newydd yn rhoi mwy o bwyslais ar y ffaith bod y Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol ac yn egluro'r hyn y disgwylir i awdurdodau cynllunio ei wneud er mwyn cyfarch materion ieithyddol. Nid oedd yn egluro sut i wneud hynny, ond deellid bod yna ganllawiau eraill ar y gweill fyddai'n rhoi mwy o fanylder ynglŷn â hynny fel rhan o'r broses o baratoi'r CDLl ar y Cyd. Ychwanegodd fod y ffordd y paratowyd y CDLl ar y Cyd hyd yma yng nghyd-destun asesiadau ieithyddol a chymunedol yn cydymffurfio â gofynion y TAN 20 newydd.

(ii) Mynegwyd pryder na fyddai yna newid yn y dull o ymdrin â cheisiadau cynllunio am o leiaf 2-3 blynedd ac y byddai'r effaith andwyol ar yr iaith wedi'i wneud yn y cyfamser. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod gan y Cyngor gynllun wedi'i fabwysiadu, ac yn ystod y 2 flynedd nesaf, hyd at fabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, byddai'r iaith Gymraeg yn ystyriaeth gynllunio berthnasol yng nghyd-destun pob cais cynllunio, yn ddarostyngedig i'r trothwyon o fewn y Canllaw Cynllunio Atodol. Yn wyneb hynny, yng nghyd-destun yr hyn mae TAN 20 yn ei ddweud, efallai nad oedd brys i ddod â TAN 20 i mewn i weithred o ran delio gyda cheisiadau cynllunio oherwydd ei fod yn datgan na ddylid ail-asesu materion ieithyddol yng nghyd-destun ceisiadau cynllunio ar ôl i'r CDLl ar y Cyd gael ei fabwysiadu. Gan hynny, dros y 2 flynedd nesaf, byddai'r drefn bresennol o weithredu'n parhau gyda materion ieithyddol yn cael eu hasesu ochr yn ochr â'r holl ystyriaethau cynllunio eraill yng nghyd-destun pob un cais unigol lle mae hynny'n berthnasol.

(iii) Mynegwyd pryder bod y TAN 20 newydd yn dweud yn glir na ddylid cyflawni asesiadau ardrawiad iaith ar geisiadau unigol oherwydd bod hynny'n dyblygu gwaith. Fodd bynnag, y cyngor a roddid oedd bod yr asesiadau ardrawiad iaith sy'n cael eu gwneud ar geisiadau unigol yn iawn hyd oni fo'r CDLl ar y Cyd wedi'i fabwysiadu. Gan hynny, nid oedd yr asesiadau iaith yn cael eu taflu o'r neilltu, ond 'roedd yn hynod bwysig bod cynnwys y CDLl ar y Cyd yn ei le yn gywir i Wynedd.

(iv) Mynegwyd pryder nad oedd yr asesiadau ieithyddol yn asesiadau annibynnol a phwysleisiwyd y dylent gael eu comisiynu gan y Cyngor fel eu bod yn ddiduedd. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd yna gyd-destun polisi i fod yn gofyn am asesiad annibynnol, a hyd yn oed petai hynny ar gael, pwy fyddai'n gwneud yr asesiad annibynnol? Ychwanegodd fod yna nifer o ystyriaethau cynllunio ynghlwm â phob un cais a bod yna nifer o asesiadau yn rhan o'r ceisiadau hynny. Eglurodd fod y Gwasanaeth, drwy'r Uned Bolisi Cynllunio ar y Cyd, sy'n arbenigo yn y maes iaith a chymunedol, yn asesu a herio datganiadau ieithyddol a chymunedol, ac yn yr un modd, 'roedd y Gwasanaeth yn asesu ac yn herio, os yn angenrheidiol, yr holl wybodaeth sy'n cael ei chyflwyno gan bob ymgeisydd yng nghyd-destun yr holl ystyriaethau cynllunio eraill perthnasol. Eglurodd fod delio gyda chais cynllunio yn golygu pwyso a mesur nifer o ystyriaethau cynllunio perthnasol yng nghyd-destun y CDU wrth ddod i argymhelliad.

Holwyd a oedd gan y Cyngor hawl cyfreithiol i ofyn am asesiad annibynnol. Nodwyd hefyd nad oedd yr aelodau byth yn gweld yr asesiadau nac yn cael cyfle i'w herio. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd y polisïau cyfredol yn dweud bod disgwyl i'r ymgeisydd dalu am asesiad annibynnol. Nododd hefyd bod yr holl asesiadau ar gyfer pob cais cynllunio ar gael ar gyfer pob aelod o'r Pwyllgor Cynllunio a phob aelod o'r Cyngor ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn cais. Nid oedd yn ymarferol cynnwys yr asesiadau yn eu cyfanrwydd ar raglenni'r Pwyllgor Cynllunio ac 'roedd yr adroddiadau cynllunio yn fanwl ac yn cwmpasu'r holl faterion cynllunio perthnasol, gan gynnwys materion ieithyddol a chymunedol. O safbwynt yr hawl cyfreithiol i ofyn am asesiad annibynnol, cytunodd y Rheolwr Cydraddoldeb ac Iaith i edrych i mewn i'r mater a dod ag ateb yn ôl i'r cyfarfod nesaf.

(v) Nodwyd, er y croesawid y TAN 20 newydd yn gyffredinol, bod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi dweud nad oedd y Cyngor yn craffu digon ar y polisïau cynllunio.

(vi) Mynegwyd anniddigrwydd na fyddai'r iaith yn berthnasol i geisiadau unigol yn ôl y TAN 20 diweddaraf. Mewn ymateb, nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio fod yr amseriad yn dda o safbwynt paratoi'r CDLl ar y Cyd a bod rhaid edrych ar ddulliau o sicrhau bod y TAN 20 newydd yn gweithio i gyfarfod â dyheadau pobl Gwynedd. Ychwanegodd fod angen tystiolaeth er mwyn ceisio cael sail ar gyfer ystyried ceisiadau cynllunio unigol ar ôl mabwysiadu'r CDLl ar y Cyd, gyda gwybodaeth atodol i'w chynnwys mewn Canllaw Cynllunio Atodol newydd. Cyfeiriodd at y gwaith o gasglu tystiolaeth ar gyfer y CDLl ar y Cyd y cyfeiriwyd ato yn rhan 3.13 o'r adroddiad, megis y prosiect tai a iaith a'r prosiect tai marchnad lleol, fel enghreifftiau o'r gwaith oedd yn mynd yn ei flaen i gyfarch materion ieithyddol a dhymunedol.

(vii) Gan gyfeirio at y Prosiect Tai ac Iaith (ail bwynt bwled o dan baragraff 3.13 o'r adroddiad), nododd yr aelod lleol na chafodd wybod ymlaen llaw fod Ward Diffwys a Maenofferen wedi ei dewis i dderbyn holiadur a mynegodd ei phryder fod cyfle wedi'i golli yma i godi ymwybyddiaeth yn lleol o bwysigrwydd dychwelyd yr holiaduron. Ymddiheurodd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio am yr amryfusedd hwn.

(viii) Pwysleisiwyd pwysigrwydd sicrhau polisïau cynllunio sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y cadarnleoedd.

(ix) Nodwyd, er y gellid ceisio gwthio'r ffiniau drwy'r drefn gyfreithiol, bod rhaid bod yn realistig ynglŷn â'r hyn y gellir ei wneud.

(x) Awgrymwyd gofyn i'r Aelod Cabinet sefydlu gweithgor i ddatblygu polisi cynllunio i ddiogelu'r iaith Gymraeg yn y gymuned o fewn y CDLl ar y Cyd yng ngoleuni'r TAN 20 newydd a chanlyniadau Cyfrifiad 2011.

(xi) Nodwyd bod dyletswydd ar y Cyngor i osod gwaelodlin a bod cyfle i'r gweithgor dan arweiniad yr Aelod Cabinet ddefnyddio profiadau i gyfrannu at hyn.

Nododd y Rheolwr Cynllunio – Polisi fod methodoleg i asesu effaith y CDLl ar y Cyd ar yr iaith Gymraeg a diwylliant yr ardal eisoes yn ei le a'i fod yn cael ei gymhwyso. 'Roedd yr amserlen yn heriol o safbwynt cael y cynllun llawn yn ei le, ac os oedd yna fwriad i sefydlu gweithgor, 'roedd angen gwneud hynny ar fyrder gan sicrhau bod trefn mewn lle i'r swyddogion cynllunio allu cyfrannu at yr wybodaeth i'r gweithgor hwnnw.

Mewn ymateb i ymholiad, eglurodd y Rheolwr Cynllunio – Polisi fod y TAN 20 newydd yn gofyn i awdurdodau wneud asesiad cynaladwyedd o'u cynllun a bod yr asesiad ieithyddol yn cael ei fwydo i mewn i'r asesiad cynaladwyedd. Nododd fod Gwynedd yn gwneud hynny'n barod gan fod yna fframwaith ac amcanion cynaladwyedd wedi'u sefydlu. Un o'r amcanion hynny oedd cynnal, gwarchod a gwella'r cyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r iaith Gymraeg yn yr ardal, ac fel 'roedd y CDLl ar y Cyd yn cael ei ddatblygu'n barod, 'roedd y cwestiwn yma'n cael ei ofyn ar bob cam.

Nododd y Cadeirydd mai dyma fan cychwyn i waith y gweithgor ac awgrymodd y dylai aelodau'r gweithgor fod yn aelodau o'r pwyllgor hwn sydd â chefndir yn y maes cynllunio.

**PENDERFYNWYD yn sgil y TAN 20 newydd a chanlyniadau Cyfrifiad 2011, gofyn i'r Aelod Cabinet sefydlu gweithgor i gyfrannu at gwrdd ag amcanion strategol Cyngor Gwynedd mewn cysylltiad â'r iaith Gymraeg, drwy roi mewnbwn i'r broses o ddatblygu polisïau cynllunio'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.**

**8. CWYNION IAITH**

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith yn manylu ar y cwynion iaith diweddaraf i law yn ymwneud â'r Cyngor, partneriaid neu sefydliadau trydydd parti.

Nododd y Swyddog Cydraddoldeb ac Iaith y derbyniwyd cŵyn ychwanegol ers paratoi'r adroddiad fod amlenni parod a anfonwyd allan gan Uned Etholiadau'r Cyngor yn cyfeirio at '*Registration Officer*' a '*Shirehall Street*'. Wedi trafod gyda'r swyddogion, deellid bod hen gyflenwad o amlenni wedi'u hanfon allan ar ddamwain. Er mwyn osgoi sefyllfa o'r fath yn y dyfodol, byddai'r amlenni wedi'u cyfeirio o hyn allan i sylw'r Swyddog Etholiadau, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon, LL55 1SH, heb unrhyw gyfeiriad at enw'r stryd.

Rhoddwyd sylw penodol i'r materion a ganlyn:-

(i) Mynegwyd anfodlonrwydd ynglŷn â'r ymateb i'r gŵyn bod swyddogion cynllunio wedi cyflwyno eu hachos mewn apêl cynllunio drwy gyfrwng y Saesneg a bod y ddogfennaeth a ddarparwyd ganddynt hefyd yn uniaith Saesneg. Nodwyd bod y penderfyniad i gynnal yr apêl dan sylw wedi'i wneud bum mis ymlaen llaw ac nad oedd yna unrhyw esgus dros beidio darparu'r ddogfennaeth yn Gymraeg.

Nododd yr Uwch Reolwr Gwasanaeth Cynllunio nad oedd ganddo ddim i'w ychwanegu i'r hyn oedd yn yr ymateb.

Awgrymodd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith y gellid gofyn i'r gwahanol adrannau ddatgan, wrth wneud eu cyflwyniadau i'r pwyllgor hwn, a oes ganddynt bolisïau ynglŷn ag, er enghraifft, dwyieithrwydd gerbron llysoedd.

Nodwyd bod angen edrych ar holl fater y Gymraeg yn gorfforaethol o fewn y Cyngor a bod angen mynd ati ar fyrder i newid y polisi o anfon dogfennaeth yn Saesneg os yw'r apelydd yn uniaith Saesneg. Ni ddylai fod gan bobl y dewis o gael popeth yn Saesneg a dylai pob dogfen fod yn Gymraeg, yn hytrach nag yn newis iaith y person.

Nododd y Rheolwr Cydymffurfiaeth ac Iaith fod hyn yn fater y gallai'r pwyllgor hwn edrych arno, naill ai pan mae adran benodol yn dod gerbron, neu fel mater ar wahân.

Mynegwyd pryder hefyd bod y swyddogion cynllunio wedi cyflwyno eu hachos yn yr apêl drwy gyfrwng y Saesneg, er bod yna gyfieithydd yn bresennol. Awgrymwyd y dylid atgoffa'r staff bod angen iddynt fanteisio ar y gwasanaeth cyfieithu. Nodwyd bod hon yn neges gyson i'w rhoi i bobl wrth iddynt ddod gerbron.

(ii) Nodwyd bod y Gofrestr Etholwyr yn parhau i restru'r fersiynau Saesneg o enwau strydoedd yng Nghricieth, Porthmadog a Phwllheli.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30am a daeth i ben am 12.10pm.